WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 686A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman, Malcolm Latham, David Thomas, Claire Worrall a Victoria Roberts.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 13 |
| Ceir tystiolaeth bod dull cynaliadwy o reoli ariannol yn cael ei ddatblygu gan fod y Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf, wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y tymor canolig sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd, gan ddechrau yn 2013-14. Fodd bynnag, erbyn mis saith 2013-14 nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol cytbwys o hyd | 13 |
| Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu a datblygu i gyflawni ei nod datganedig o fod 'o'r radd flaenaf'. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn yn llawn mae rhai heriau o ran perfformiad y mae'n rhaid ymateb iddynt a gallai rhai trefniadau llywodraethu presennol gael eu gwella a'u datblygu ymhellach | 15 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol | 19 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 21 |
| Ffi archwilio | 22 |
| Risgiau archwiliad ariannol | 23 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Rhagfyr. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r rhain yn ymwneud ag arferion cyfrifyddu a'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol ar gostau parhaus gofal iechyd a pholisi arfer talu y sector cyhoeddus, a hefyd y materion pwysig y gohebwyd yn eu cylch â'r rheolwyr ynglŷn â phwysau ariannol a chyllido.
7. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 oherwydd tanwariant yn erbyn ei derfyn adnodd refeniw o £0.034 miliwn. Atebodd yr her ariannol o sicrhau arbedion gwerth £48 miliwn a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn, drwy gyfuniad o arbedion a ryddhaodd arian parod, osgoi costau a rhaglenni lleihau costau ynghyd â swm ychwanegol o £10 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Wrth fantoli'r gyllideb darparodd froceriaeth adnoddau gwerth £2.275 miliwn i Lywodraeth Cymru a bydd yn cael y swm hwnnw yn ôl yn 2013-14.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Ceir tystiolaeth bod dull cynaliadwy o reoli ariannol yn cael ei ddatblygu gan fod y Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf, wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y tymor canolig sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd, gan ddechrau yn 2013-14. Fodd bynnag, erbyn mis saith 2013-14 nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol cytbwys o hyd

**10.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol ac mae alldro saith mis cyntaf 2013-14 yn ddiffyg o £5.4 miliwn, nid yw'r arbedion costau a ragwelwyd yn cael eu cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai diffyg o £8.4 miliwn ar ddiwedd 2013-14 os na chaiff camau gweithredu pellach eu cymryd.

**11.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd ariannol yn gyson ac yn dryloyw, ac mae'r cynllun integredig tymor canolig yn nodi'r gofynion o ran gwasanaethau, cyllid a'r gweithlu sy'n sail i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y dull gweithredu arfaethedig, gan gynnwys creu cynllun ariannol cytbwys.

### Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu a datblygu i gyflawni ei nod datganedig o fod 'o'r radd flaenaf'. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn yn llawn mae rhai heriau o ran perfformiad y mae'n rhaid ymateb iddynt a gallai rhai trefniadau llywodraethu presennol gael eu gwella a'u datblygu ymhellach

**12.** Mae'r meysydd allweddol a nodwyd yn ystod asesiad strwythuredig y llynedd wedi gwella am fod strwythurau a fframweithiau trefniadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu mewn ffordd effeithiol. Mae cyfleoedd o hyd yn y dyfodol i wella'r wybodaeth a ddarperir i aelodau'r Bwrdd ac i olrhain y cynnydd a wneir o ran lleihau risgiau.

**13.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn amlwg yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon drwy ddysgu o brofiad defnyddwyr gwasanaethau a staff. Yr her allweddol yw sicrhau bod y trefniadau hyn yn dod yn rhan o arferion gwaith bob dydd ar bob lefel o'r sefydliad, drwy wella'r hyfforddiant a roddir i staff, gwella adborth staff ynglŷn â dysgu o bryderon a chwynion yn eu gweithle a dod yn fwy sensitif i anghenion unigolion sydd â nam ar y synhwyrau.

**14.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon drwy atgyfnerthu ei drefniadau sicrhau ansawdd, diogelwch a pherfformiad yn barhaus. Ystyrir bod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ynghyd â'i is-bwyllgorau ategol yn gweithio'n dda. Mae cyfleoedd i wella'r trefniadau presennol drwy roi mwy o bwyslais ar y gwersi a ddysgwyd a sut y gellir rhannu'r rhain drwy'r sefydliad cyfan a thrwy sicrhau bod mwy o adroddiadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**15.** Mae gan y Bwrdd Iechyd nod datganedig clir o sicrhau gwasanaethau o safon dda i gleifion, y mae'n ei gyflawni ar y cyfan o'i fesur yn ôl y wybodaeth am berfformiad sydd ar gael ar hyn o bryd. Er bod cyflawni rhai targedau megis amseroedd aros a thargedau trin canser yn fwy heriol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn ei drafod yn agored ym mhapurau'r Bwrdd y gall y cyhoedd eu gweld. Yn y dyfodol, bydd angen i'r Bwrdd o bryd i'w gilydd fonitro effaith meysydd megis perfformiad DNA, hyd arosiadau dewisol a chyfraddau defnyddio gwelyau, y mae goblygiadau i bob un ohonynt o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Daeth fy ngwaith ar raglen Eiddilwch Gwent i'r casgliad bod partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau roedd y gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ar adeg yr adolygiad ac roedd heriau o hyd i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**17.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.

**18.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**19.** Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**20.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**21.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**22.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

**23.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**24.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**25.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**26.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**27.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae'r archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**28.** Mae'r amserlen dynn, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cryn bwysau ar y tîm cyllid. Yng ngoleuni profiadau paratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn yn y gorffennol, paratôdd tîm cyllid y Bwrdd gynllun cau cyfrifon manwl ar gyfer 2012-13 a oedd yn cynnwys adolygiad o'r datganiadau ariannol gan reolwyr a pharatoi atodlenni ategol i'w harchwilio. Mae'r broses hon wedi helpu i atgyfnerthu'r broses o baratoi datganiadau ariannol.

29. Daethpwyd i gytundeb ag un o gyrff eraill GIG Cymru o ran cytundeb y bu dadl yn ei gylch ers tro yn ddiweddarach nag a ragwelwyd. Golygai hyn fod oedi cyn cwblhau'r cyfrifon yn ôl yr arfaeth, ac o ganlyniad nid oedd papurau gwaith ar gael yn eu cyfanrwydd i'r tîm archwilio ar y dyddiad arfaethedig. Fodd bynnag, cafodd papurau gwaith allweddol eu darparu'n amserol, a fu'n fodd i'r archwiliad ddechrau, gyda'r gweddill yn cael eu darparu yn fuan wedi hynny.

30. Yn unol ag ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 4 Mehefin 2013. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Arferion Cyfrifyddu ac Adrodd Ariannol | **Gofal Iechyd Parhaus**<br>Adolygwyd sail yr amcangyfrifon ar gyfer darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hyn ac rydym yn fodlon bod seiliau'r amcangyfrifon yn rhesymol.<br>**Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus**<br>Mae lefel cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â tharged talu Llywodraeth Cymru wedi'i mesur ar sail gyson ers pedair blynedd.<br>Fodd bynnag, ymhlith holl Fyrddau Iechyd Lleol Cymru, mae anghysondeb o ran y dulliau a ddefnyddir i lunio'r nodyn datgelu ategol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ymdrin â'r mater hwn a chytunwyd ar weithdrefnau newydd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer 2013-14. |
| Materion sylweddol y gohebwyd â rheolwyr yn eu cylch | **Pwysau Ariannol a Chyllid**<br>Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13, o ganlyniad i £10 miliwn o gyllid anghylchol, ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis wyth, a sicrhau tua £48 miliwn o arbedion a ryddhaodd arian parod, osgoi costau a rhaglenni lleihau costau yn ystod y flwyddyn. Cafwyd tanwariant o £0.034 miliwn yn erbyn terfyn adnoddau refeniw'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Hefyd, darparodd froceriaeth adnoddau gwerth £2.275 miliwn i Lywodraeth Cymru yn 2012-13, a gaiff yn ôl yn 2013-14. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion eraill sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amserol ac ystyriwyd y drafft cyntaf gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2012. Fodd bynnag, bryd hynny nid oedd y broses o asesu effeithiolrwydd y fframwaith sicrwydd na thystiolaeth o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ar waith. Er y cydnabyddir bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynwyd ar y cyd â'r cyfrifon terfynol yn ddogfen gynhwysfawr, gellid gwella'r datganiad yn y dyfodol drwy adlewyrchu effaith y gwahanol elfennau o'r fframwaith sicrwydd ar weithgareddau'r Bwrdd. |

**31.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2013, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodais fod yr Adroddiad Blynyddol drafft llawn cyntaf wedi'i baratoi'n ddiweddarach nag a gynlluniwyd a chafodd ei newid sawl gwaith dros gyfnod byr. At hynny, nid oedd bob amser yn amlwg pwy oedd yn gyfrifol am gwblhau'r ddogfen yn derfynol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda staff y Bwrdd Iechyd er mwyn cytuno ar gynllun y gellir ei gyflawni ar gyfer llunio'r Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu ac atgyfnerthu gweithdrefnau a sicrhau y gellir nodi unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer 2013-14.

**32.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol ar gyfer 2012-13 wedi'i gwblhau bellach a hysbyswyd yr ymddiriedolwyr am unrhyw faterion a oedd yn codi ar 27 Tachwedd.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**33.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol i asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy wall neu dwyll. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

**34.** Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd wedi cyrraedd *Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru* a bod rhai meysydd allweddol lle mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Cafodd y Siarter Archwilio Mewnol newydd ei mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd ar 18 Ebrill 2013 ac mae datblygiadau arfaethedig eraill eisoes ar waith a fydd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol, ar gyfer Cymru gyfan.

**35.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'r gwaith hwn yn gyfystyr ag asesiad o'r trefniadau archwilio mewnol o dan Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o drefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'r asesiad hwn yn ehangach na'r gwaith y mae archwilwyr allanol yn ei wneud er mwyn dibynnu ar waith archwilio mewnol neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

**36.** At hynny, rhoddodd *Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol* y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 'sicrwydd digonol' i'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn adlewyrchu system o reolaethau mewnol sy'n gadarn ar y cyfan a chydymffurfiaeth weithredol gyffredinol.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad

**37.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2013. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod. Cynhwyswyd sylwadau manylach ar y system ariannol a chyfrifyddu yn Adroddiad y Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2013.

**38.** Nododd archwiliad mewnol fod rhai gwendidau yng nghynllun rheolaethau a'r ffordd yr oedd yn cael eu cymhwyso yn y Bwrdd Iechyd a allai beryglu'r gwaith o gyflawni amcanion penodol y system. Roedd y gwendidau penodol a nodwyd gan adolygiadau o systemau ariannol gan Archwilwyr Mewnol yn effeithio ar y gyflogres, caffael, cyfrifon taladwy, storfeydd a thaliadau i gontractwyr gofal sylfaenol. Nododd eu hadolygiadau fod lle i wella ymhellach mewn sawl maes gweithredol. Mae canfyddiadau'r Archwilwyr Mewnol yn gofyn am gamau gweithredu parhaus gan reolwyr. Datblygwyd cynlluniau gweithredu'r Bwrdd Iechyd er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13, drwy gyfuniad o wneud arbedion a ryddhaodd arian parod, osgoi costau a rhaglen lleihau costau ynghyd ag arian anghylchol ychwanegol gwerth £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru

**39.** Bu'r ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli'n ariannol yn 2012-13 yn rhannol lwyddiannus, ond gwnaeth benderfyniad i dderbyn na fyddai'r targed rhwng atgyfeiriad a thriniaeth yn cael ei gyflawni er mwyn mantoli'r gyllideb. At hynny, arweiniodd pwysau brys at ganslo nifer o lawdriniaethau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a allai fod wedi cael ychydig o effaith ariannol gadarnhaol anfwriadol.

**40.** Fodd bynnag, nid oedd y camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni targedau ariannol, yn cynnwys enillion ffodus, nac enillion cyfrifyddu technegol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweld y gwaith da y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud i edrych ar ei fodelau o wasanaeth o safbwynt ansawdd a diogelwch ac yna nodi'r effaith ariannol yn hytrach na bod cyllid yn pennu ansawdd a diogelwch.

**41.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu cryn her ariannol gyda phwysau ar gostau gwerth tua £44 miliwn yn 2013-14. Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd yng Nghymru fel rhan o'm rhaglen waith ar gyfer 2013-14.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**42.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig, gyda phwyslais penodol ar lywodraethu ansawdd a chadernid trefniadau asesu profiad cleifion/defnyddwyr;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar drefniadau llywodraethu Eiddilwch Gwent.

**43.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Ceir tystiolaeth bod dull cynaliadwy o reoli ariannol yn cael ei ddatblygu gan fod y Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf, wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y tymor canolig sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd, gan ddechrau yn 2013-14. Fodd bynnag, erbyn mis saith 2013-14 nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol cytbwys o hyd

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol ac mae alldro saith mis cyntaf 2013-14 yn ddiffyg o £5.4 miliwn, nid yw'r arbedion costau a ragwelwyd yn cael eu cyflawni ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai diffyg o £8.4 miliwn ar ddiwedd 2013-14 os na chaiff camau gweithredu pellach eu cymryd

**44.** Cafodd Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013-14 ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2013, gan ddarparu cynllun ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a oedd yn cynnwys targedau osgoi costau ac arbedion. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn gytbwys. Er bod her ariannol o £44 miliwn wedi cael ei mesur yn y cynllun, dim ond arbedion sy'n rhyddhau arian gwerth £19.9 miliwn a chynlluniau osgoi costau gwerth £6 miliwn arall a nodwyd. O ganlyniad, roedd y swm o £19 miliwn a oedd yn weddill wedi'i orneilltuo.

45. Roedd y cynlluniau arbedion a'r targed osgoi costau ar gyfer saith mis cyntaf 2013-14 yn gofyn am arbed £11.6 miliwn, a sicrhau arbedion gwerth tua £1.7 miliwn y mis ar gyfartaledd. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai pob un o'r cynlluniau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd bod cyfanswm o £8.5 miliwn wedi cael ei arbed erbyn mis saith 2013-14 yn erbyn targed o £11.6 miliwn neu 73 y cant. Mae tua £3 miliwn o arbedion yn cael eu gwneud bob mis ar hyn o bryd, sy'n llai na'r hyn sydd ei angen i fantoli'r gyllideb. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg o £5.4 miliwn ar ddiwedd mis saith a diffyg arfaethedig o £8.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i unioni'r sefyllfa.

46. Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod yr arbedion a nodwyd ar ei hôl hi o hyd o gymharu â'r cynllun cymeradwy am eu bod wedi cael eu proffilio ar sail llinell syth yn hytrach nag adlewyrchu proffil y cynlluniau arbedion sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r arbedion a gyflawnwyd hyd yn hyn yn unol â phroffil y cynlluniau arbedion sylfaenol a disgwylir y bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau gwerth uwch yn ail hanner y flwyddyn ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, erys risg o hyd mewn cysylltiad â sicrhau arbedion drwy gydol gweddill y flwyddyn.

47. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl arbedion posibl a nodwyd yn cael eu gweithredu a'u gwireddu cyn gynted ag y bo modd. Bydd gwaith monitro cynnydd manwl yn ogystal â cheisio nodi cyfleoedd pellach i arbed arian, neu gyflwyno cynlluniau diweddarach lle y bo angen, yn allweddol hefyd er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fantoli'r gyllideb y flwyddyn ariannol hon. Efallai y bydd angen ystyried hefyd a yw'r model gofal a ddymunir yn fforddiadwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd ariannol mewn ffordd gyson a thryloyw, ac mae'r cynllun integredig tymor canolig yn nodi'r gofynion o ran gwasanaethau, cyllid a'r gweithlu sy'n sail i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y dull gweithredu arfaethedig, gan gynnwys creu cynllun ariannol cytbwys

48. Mae strategaeth y Bwrdd Iechyd yn y tymor canolig yn cynnwys adolygiad o asedau a ddefnyddiwyd yn y llwybrau busnes, cynllunio'r gweithlu a chlinigol fel rhan o'r rhaglen Dyfodol Clinigol. Mae'n disgrifio sut y bydd costau'r model gwasanaeth cyfredol yn cael eu lleihau er mwyn cyfrannu at ddarparu system gofal iechyd gynaliadwy fel rhan o'r broses o lunio cynllun cytbwys dros gyfnod o dair blynedd.

49. Mae'r cynllun yn fodd i bob elfen o'r model gwasanaeth gael ei haddasu er mwyn profi a herio'r newidiadau arfaethedig os nad ydynt yn darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy o fewn y cyllid sydd ar gael. Er enghraifft, efallai na fydd y model gofal a ddymunir yn fforddiadwy. Os felly, byddai newidiadau i'r model gofal, lleihad yn y galw, mwy o effeithlonrwydd neu gyfuniad o'r tri yn cael eu hystyried.

**50.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â rhagor o waith i gysoni cynlluniau gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a dadansoddiad sensitifrwydd o risgiau allweddol a'r hyn y gellir ei gyflawni gan gynnwys safonau sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch a mynediad. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol a gwaith cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu. Mae angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd geisio paratoi cynllun ariannol cytbwys dros dair blynedd er mwyn cefnogi'r strategaeth tymor canolig, a nes bod hyn wedi'i gyflawni mae'r dull gweithredu yn anghynaliadwy tra'n cynnal y lefelau cyfredol o ddarpariaeth gwasanaeth.

**51.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gyson ac yn dryloyw o ran lefel manylion ariannol a'r cynnydd a'r casgliadau a nodwyd yn fewnol yng nghyfarfodydd y bwrdd a hefyd i Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn rhoi hyder yng nghywirdeb ac eglurder y broses cynllunio ac adrodd.

**52.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli cyllideb – gan gynnal cyfarfodydd rheoli cyllideb manwl mynych ymhob rhan o'r sefydliad er mwyn olrhain cynnydd a mynd i'r afael ag amrywiannau o ran alldro, rhagolygon a chynlluniau arbedion. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig proses amserol a chadarn o fonitro'r gyllideb.

**53.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cymryd camau ystyriol i geisio lleihau costau yn hytrach na derbyn y llwybr hawsaf i beidio â gwneud pethau newydd a/neu'r pethau y dilëwyd arian ar eu cyfer eleni. Felly, mae angen gwneud dewisiadau anodd er mwyn i'r Bwrdd Iechyd greu cynllun ariannol cytbwys a mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu a datblygu i gyflawni ei nod datganedig o fod 'o'r radd flaenaf'. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn yn llawn mae rhai heriau o ran perfformiad y mae'n rhaid ymateb iddynt a gallai rhai trefniadau llywodraethu presennol gael eu gwella a'u datblygu ymhellach

### Mae'r meysydd allweddol a nodwyd yn ystod asesiad strwythuredig y llynedd wedi gwella am fod strwythurau a fframweithiau trefniadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu mewn ffordd effeithiol

**54.** Nododd fy ngwaith y llynedd fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith a ddylai sicrhau ei fod yn llywodraethu'n effeithiol ac yn rhoi sicrwydd i'r bwrdd ond gellid gwella'r trefniadau hyn ymhellach. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol i'm hargymhelliad a thros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cynnal adolygiad o drefniadau a swyddogaethau ei bwyllgorau sydd wedi arwain at gylch gorchwyl newydd a chylchdroi cadeiryddion pwyllgorau.

**55.** Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd wedi parhau i wella gan ddod yn fwy amserol, sy'n helpu aelodau'r Bwrdd i roi'r sicrwydd angenrheidiol a herio'r sefydliad o ran perfformiad. Mae cyfleoedd o hyd i wella'r wybodaeth gyfredol yn y dyfodol drwy gynnwys mwy am berfformiad gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedau, rhoi mwy o ffocws ar brofiad a chanlyniadau'r claf a gwneud defnydd gwell o ragolygon wrth nodi'r hyn y bydd camau gweithredu rheolwyr yn ei gyflawni.

**56.** Mae'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â rheoli risg wedi parhau i ddatblygu ac aeddfedu gyda'r Pwyllgor Archwilio yn ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb am roi sicrwydd i'r Bwrdd bod trefniadau'n gweithio'n dda. At hynny, mae'r Bwrdd, ynghyd â'i bwyllgorau, wedi rhoi mwy o bwys ar reoli risg yn eu hagendâu a'u trefniadau adrodd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r Gofrestr Gorfforaethol o Risgiau ac adroddiadau ategol fel rhan o ddull gweithredu agored a thryloyw'r Bwrdd.

**57.** Er mwyn helpu aelodau'r Bwrdd i gael cydbwysedd rhwng craffu, goruchwyliaeth a chyfarfodydd effeithiol, mae cyfle i wella adroddiadau ar reoli risg drwy gyflwyno siartiau olrhain. Bydd hyn yn galluogi aelodau i nodi'n gyflym y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r materion y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt.

**58.** Y llynedd, canfu fy asesiad strwythuredig fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud newid sylweddol i wella prosesau cynllunio'r gweithlu. Mae'r newid sylweddol hwn wedi cael ei gynnal a'i ddatblygu drwy gamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd i gynyddu'r adnoddau ar gyfer gwaith cynllunio'r gweithlu a sicrhau bod gan yr Is-adrannau berchenogaeth weithredu o'u 'mapiau ffordd' priodol. Llwyddiant arall fu prosiect 'Ward Berffaith' y Bwrdd Iechyd sy'n parhau i ddatblygu a llywio'r lefel briodol o staffio ar wardiau. Yn y dyfodol, er bod gwaith cynllunio'r gweithlu wedi canolbwyntio ar staff acíwt yn bennaf mae angen bellach i roi blaenoriaeth i ddatblygu model y gweithlu cymunedol ac ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn amlwg yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon drwy ddysgu o brofiad defnyddwyr gwasanaethau a staff. Yr her allweddol yw sicrhau bod y trefniadau hyn yn dod yn rhan o waith bob dydd arferol ar bob lefel yn y sefydliad.

**59.** Mae'r Bwrdd Iechyd ar bob lefel yn gwbl bendant bod yn rhaid iddo ddysgu o brofiad cleifion, defnyddwyr a'r staff, y dylai wneud hynny a'i fod am wneud hynny. Ers 2011, mae Fframwaith Profiad Cleifion sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd wedi bod ar waith ac mae profiad cleifion yn cael sylw'n rheolaidd mewn cyfarfodydd is-adrannol, cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chyfarfodydd y Bwrdd. Caiff y trefniadau hyn eu cefnogi gan Strategaeth Dysgu Gweithredol ac mae 'Hanesion Cleifion' wedi cael eu defnyddio ers amser i wella hyfforddiant.

**60.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu ac wedi creu ffordd gynhwysol, agored a gonest o ymdrin â chwynion a phryderon rheolwyr ynglŷn â'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol gan ddangos arweiniad clir i gasglu a dysgu oddi wrth adborth cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae strwythurau ategol yn cynnwys Grŵp Strategaeth Profiad Cleifion o dan gadeiryddiaeth Aelod Annibynnol a Grŵp Profiad Cleifion Gweithredol o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Nyrsys, yr ystyrir ac y nodir bod y ddau yn gweithio'n dda.

**61.** Ar lefel weithredol, mae nifer o bolisïau cynhwysfawr a hygyrch ar waith i helpu i reoli cwynion a phryderon yn effeithiol. Wrth reoli pryderon a chwynion mae disgwyliadau'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Nyrsys a'r Cyfarwyddwr Meddygol yn hysbys iawn ac yn cael eu deall gan y rhan fwyaf o staff a rheolwyr rheng flaen.

**62.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwbl ymrwymedig i wrando ar faterion a godir gan staff ac ymateb yn gadarnhaol iddynt. Wrth geisio'r safbwyntiau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd gwahanol gan gynnwys ymweliadau cynlluniedig a dirybudd gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gweithio drwy drydydd partïon a chymryd datgeliadau dienw o ddifrif yn yr un modd. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, mae Fforwm Partneriaeth effeithiol ar waith gyda sefydliadau'r staff ac ystyrir bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb yn gadarnhaol i bryderon a godwyd drwy'r sefydliadau hyn.

**63.** Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi Chwythu'r Chwiban cyfredol ar waith ac nid oes unrhyw dystiolaeth nad ymdrinnir ag achosion o chwythu'r chwiban yn briodol drwy weithdrefnau cwyno'r Bwrdd Iechyd. Er bod gwybodaeth am y polisi ynglŷn â chwythu'r chwiban ar gael, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy bellach i fynd ati i hyrwyddo'r deunydd hwn er mwyn gwrthbwyso canfyddiad negyddol a phryderon rhai aelodau o staff ynglŷn â chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad negyddol hwn wedi'i wrthbwyso gan yr hyder cyffredinol yn y trefniadau presennol i godi pryderon.

**64.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi meithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu o brofiad drwy'r sefydliad cyfan ac mae'r Pwyllgor Dysgu sefydliadol a sefydlwyd ganddo yn dyst i hyn. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor hwn yn cyfarfod yn ddigon aml i fod yn effeithiol ac mae angen gwneud rhagor i roi adborth ar ddysgu sefydliadau a chanlyniadau i staff lle mae pryderon a materion wedi cael eu codi yn eu meysydd gwaith.

**65.** Un o gryfderau penodol y Bwrdd Iechyd yw'r berthynas waith â'r Cyngor Iechyd Cymuned y mae'r naill sefydliad a'r llall yn credu ar y cyfan ei bod yn berthynas waith iach, aeddfed ac effeithiol. Yn y bartneriaeth hon, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned i ddeall safbwyntiau ei gleifion ar nifer o faterion ac mae'n croesawu ei waith ymchwil a chanfyddiadau ei ymchwiliadau, a ddefnyddir i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau ac a godir yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

**66.** Mae fy ngwaith archwilio wedi cydnabod, er bod ymrwymiad sylweddol drwy'r sefydliad cyfan i ymateb yn gadarnhaol ac yn effeithiol i bryderon a godwyd gan gleifion a staff, y gellir gwneud rhagor o hyd i sicrhau bod y dulliau gweithredu wedi'u hymgorffori'n llawn mewn arferion gwaith bob dydd. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant y Bwrdd Iechyd yn helpu staff a rheolwyr i reoli pryderon a chwynion yn hyderus pan gânt eu codi;
- er bod clinigwyr arweiniol a rheolwyr yn cael eu nodi'n glir pan fyddant yn cynnal ymchwiliadau i gwynion a phryderon, gellid gwneud rhagor i gydgysylltu ymchwiliadau pan fydd sawl aelod o staff ynghlwm wrth yr ymchwiliad;
- sicrhau bod y Bwrdd Iechyd a'i staff yn dod yn fwy ystyriol o anghenion unigolion sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon drwy atgyfnerthu ei drefniadau sicrhau ansawdd, diogelwch a pherfformiad yn barhaus

**67.** Mae gan y Bwrdd Iechyd nod clir a datganedig y bydd, yn anad dim, yn cynnal ac yn darparu gwasanaethau o'r safon orau bosibl. Er mwyn sicrhau y caiff y nod hwn ei gyflawni, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion sy'n ymgymryd â'r gwaith craffu a herio angenrheidiol ar ran y Bwrdd. Mae fy ngwaith eleni wedi nodi bod y Pwyllgor yn gweithio'n dda yn y rôl hon. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r cyfranwyr yn agored ac yn onest gan mwyaf wrth fynd i'r afael â phryderon a materion a'u codi. Yn benodol, mae'r Aelodau Annibynnol yn cymryd diddordeb mawr ac yn codi cwestiynau priodol a pherthnasol wrth drafod eitemau ar yr agenda sy'n achosi cryn bryder. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu rhaglen o adolygiadau blynyddol o isadrannau a chyfarwyddiaethau, sy'n gweithio'n dda ac sy'n cael eu hategu gan adroddiadau cynhwysfawr ar berfformiad a chyflwyniadau gan glinigwyr a rheolwyr cyffredinol, sy'n cynnig trosolwg da a manwl o'r materion a'r perfformiad cyfredol.

**68.** Mae gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael ei gefnogi gan is-bwyllgor gweithredol a chan drefniadau ansawdd a diogelwch cleifion is-adrannol. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael adroddiadau priodol ar waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a gall materion pwysig gael eu trosglwyddo i'r Bwrdd yn gyflym yn ôl yr angen, a byddant yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Gorfforaethol o Risgiau.

**69.** Ym mhob cyfarfod mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael adroddiad cynhwysfawr, wedi'i ysgrifennu'n dda ar ansawdd sefydliadol sy'n rhoi trosolwg da o berfformiad y Bwrdd Iechyd a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion. Wrth i'r adroddiad hwn ddatblygu ac aeddfedu, dylai'r Pwyllgor geisio rhoi mwy o bwyslais ar y gwersi a ddysgwyd a sut y gellir rhannu hyn drwy'r sefydliad cyfan a'r GIG ehangach. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod mwy o'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar faterion ansawdd a diogelwch cleifion ar gael i'r cyhoedd a chysoni perfformiad â'r Datganiad Ansawdd Blynyddol.

**70.** Gwnaeth y Bwrdd Iechyd baratoi a chyhoeddi ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol cyntaf ar amser, a oedd ar gael yn hwylus i'r cyhoedd ar ei wefan. Er bod gan y ddogfen grynodeb wedi'i ysgrifennu'n dda ynghyd ag amcanion amlwg, roedd yr adran fanwl yn aml yn fanwl iawn ac yn rhy dechnegol i'r darllenydd lleyg. At hynny, er i'r ddogfen nodi a disgrifio'r hyn sy'n cael ei wneud yn dda, rhoddwyd llai o sylw i'r hyn nad yw'n cael ei wneud yn dda a'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag ef.

**71.** Yn y dyfodol, gellid atgyfnerthu dulliau gweithredu'r Bwrdd Iechyd drwy ddatblygu crynodeb sy'n canolbwyntio mwy ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau ac sy'n nodi perfformiad allweddol a pha welliannau a wnaed a lle mae angen gwneud rhagor. Yn yr adrannau manylach mae angen rhoi mwy o sylw i waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r sicrwydd annibynnol a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll

**72.** Ymarfer paru data sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac fe'i cynhelir bob dwy flynedd. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

**73.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2012. Cafodd y data eu paru a chyhoeddwyd y canlyniadau i'r cyrff dan sylw ym mis Ionawr 2013.

**74.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd rhan lawn yn y Fenter ac mae'n gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

### Mae gan y Bwrdd Iechyd nod datganedig clir o sicrhau gwasanaethau o safon dda, rhywbeth y mae'n ei wneud ar y cyfan o'i fesur yn ôl y wybodaeth am berfformiad sydd ar gael ar hyn o bryd. Bu cyflawni rhai targedau yn heriol, caiff hyn ei gydnabod a'i gofnodi'n agored ym mhapurau'r Bwrdd y gall y cyhoedd eu gweld.

**75.** Mae Asesiad Strwythuredig eleni wedi cynnwys dadansoddiad o ddata perfformiad sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaeth allweddol. Defnyddiwyd y data hwn i asesu'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau economaidd a hygyrch o ansawdd da i gleifion.

**76.** Yn seiliedig ar adolygiad o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda ar y cyfan â gweddill Cymru, a lle mae perfformiad yn dirywio neu lle nad yw'n gwella'n ddigonol, caiff y rhain eu nodi ym mhapurau'r Bwrdd y gall y cyhoedd eu gweld. Mae'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf yn cynnwys:

- canran y cleifion sy'n aros am driniaeth ar ôl 26 wythnos yw'r uchaf ond un yng Nghymru ac roedd wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn, ond mae cyfradd y cynnydd wedi arafu oherwydd y flaenoriaeth a roddir gan dimau rheoli cyfarwyddiaethau ar sicrhau cydymffurfiaeth;
- o ran triniaethau canser ar y llwybr Iechyd brys, y Bwrdd Iechyd sydd â'r perfformiad isaf o'i gymharu ag eraill, ac er bod perfformiad yn gymharol well o ran achosion brys a ddaw o'r llwybr nad yw'n frys, eto i gyd mae wedi dirywio ychydig drwy gydol y flwyddyn.

**77.** Mae fy ngwaith wedi nodi rhai dangosyddion defnyddio gwasanaethau allweddol na chyflwynir adroddiadau arnynt i'r Bwrdd a lle y gellid gwella perfformiad a defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol, sef:

- Cleifion allanol newydd a chyfraddau gwaith dilynol ar 'ni ddaethpwyd i'r apwyntiad' (DNA). Er bod y cyfraddau DNA gwael wedi'u priodoli'n bennaf i broblemau nad ydynt wedi'u datrys gyda system gweinyddu cleifion Myrddin mae cyfleoedd o hyd i ystyried y rhesymau dros y perfformiad hwn a gwella gwasanaethau hyd y gellir.
- Y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd defnyddio gwelyau uchaf yng Nghymru ac arosiadau ar ôl llawdriniaeth ddewisol sy'n hwy na'r cyffredin. Er y gall y rhesymau dros hyn fod yn gymhleth, er enghraifft, cymysgedd o achosion a chyfraddau llawdriniaeth ddydd, pe gellid gwella perfformiad yn y meysydd hyn efallai y bydd yn cael effaith ar amseroedd aros.

**78.** Dylai'r materion hyn a sut mae gwasanaethau yn cael eu gwella hyd y gellir, gael mwy o sylw mewn adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd nes bod gwelliannau wedi'u cyflawni'n gynaliadwy.

## Mae gan raglen Eiddilwch Gwent fframwaith rheoli rhaglen cadarn a'r her yw sicrhau ei bod yn darparu gwasanaethau cynaliadwy

**79.** Wrth adolygu sut y caiff adnoddau eu defnyddio, daeth fy ngwaith ar raglen Eiddilwch Gwent i'r casgliad bod partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau roedd y gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ar adeg yr adolygiad ac roedd heriau o hyd i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, yn newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith. Yn benodol:

- er bod gweledigaeth glir ar gyfer Eiddilwch Gwent, y mae pob asiantaeth yn ymrwymedig iawn iddi, gallai rhai tensiynau gweithredol a thensiynau rhwng rhanddeiliaid effeithio ar gyflymder newid a sicrhau'r buddiannau posibl yn llawn;
- mae Eiddilwch Gwent yn dod yn rhan o waith bob dydd timau cymunedol, ond nid yw'r cynnydd cynnar hwn wedi'i ategu'n gyson gan y newidiadau ehangach sydd eu hangen er mwyn ei chefnogi a'i chynnal, ac mae'r gwasanaethau i ddefnyddwyr yn amrywio;
- mae trefniadau rheoli rhaglen ar gyfer rhoi Eiddilwch Gwent ar waith yn gadarn ond mae angen atgyfnerthu rhai elfennau o reoli perfformiad er mwyn cynnal strwythurau a phrosesau llywodraethu;
- ceir arwyddion cynnar bod Eiddilwch Gwent yn gwneud ychydig o gynnydd cadarnhaol, ond bydd yn anodd gwerthuso ei heffaith gyffredinol oni ellir nodi a mesur ei chyfraniad tuag at wella canlyniadau i bobl eiddil yn fwy clir.

**80.** Yn ystod 2014, bwriadaf ailymweld â'r prosiect er mwyn asesu'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Hydref 2013 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Rhaglen Eiddilwch Gwent | Mawrth 2013 |
| Trosolwg o'r Trefniadau ar gyfer Gwybodaeth Wrth Gefn | Tachwedd 2013 |
| Asesiad Strwythuredig 2013 | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2013 | Ebrill 2013 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Ragnodi ym maes Gofal Sylfaenol | Ionawr 2014 |
| Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal | Ionawr 2014 |
| Adolygiad Dilynol o Ystafelloedd Llawdriniaeth | Mawrth 2014 |
| Adolygiad o Godio Clinigol | Mawrth 2014 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £455,486 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 y risgiau archwilio ariannol allweddol ar gyfer 2013. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio ariannol | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|
| Caiff y **cyfrifon blynyddol** eu llunio o dan **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG**. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r **gofynion** hyn, gan sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau ac yn sicrhau y nodir risgiau a materion ac yr eir i'r afael â hwy yn briodol.<br>Mae meysydd risg penodol yn cynnwys:<br>• Eiddo, offer a chyfarpar, dibrisiad a'r gronfa ailbrisio wrth gefn, o ystyried ailbrisio ystâd y GIG ar 1 Ebrill 2012. | Rydym wedi profi'r ffigurau yn y cyfrifon drafft a'r cyfrifiadau o ddibrisiant ac ailbrisio. Daethom i'r casgliad bod y ffigurau yn y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg. |
| • Amcangyfrifon, yn enwedig amcangyfrifon o'r ddarpariaeth gofal iechyd parhaus, gwariant gofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol. | Rydym wedi adolygu sail yr amcangyfrifon ar gyfer darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn ac rydym yn fodlon bod seiliau'r amcangyfrifon yn rhesymol. |
| • Polisi taliadau'r Sector Cyhoeddus a datgeliadau cyflog canolrifol 'Hutton', o ystyried pryderon y llynedd na chydymffurfiwyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Adolygwyd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd a nodwyd, er bod y dull gweithredu'n gyson, na chydymffurfiwyd â'r canllawiau. Fodd bynnag, nodwyd bod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ymdrin â'r mater hwn a chytunwyd ar weithdrefnau newydd ledled Cymru ar gyfer 2013-14. |
| • Cywirdeb a chyflawnrwydd yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, o ystyried nifer o newidiadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn ystod y flwyddyn. | Gwiriwyd y datgeliadau manwl yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth er mwyn dod o hyd i darddiad dogfennaeth, a daethom i'r casgliad bod y manylion a ddatgelwyd yn gywir ac yn gyflawn. |
| • Ar 1 Mehefin 2012, trosglwyddodd rhai gwasanaethau cymorth o'r Bwrdd Iechyd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi cyfrif yn briodol am y trosglwyddiad yn ei gyfrifon blynyddol. | Gwiriwyd y ffurflen sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi balansau gyda Chronfa Risg Cymru ar 1 Mehefin 2012. Daethom i'r casgliad y rhoddwyd cyfrif am falansau Cronfa Risg Cymru yn briodol ar ddyddiad trosglwyddo i bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk